Ysgol Pentreuchaf
Pwllheli, Gwynedd. LL53 8DZ
Pennaeth: Mrs Helen Vaughan-Jones
01758 750600
helen.vaughan-jones@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

14/11/2023

**Diwrnod Di-Drydan / *Non-Electricity Day***
**Tachwedd 22ain 2023 / *November 22nd 2023***

Annwyl rieni/warchodwyr,

Fel rhan o'n thema ar Yr Amgylchedd y tymor yma, mae'r Cyngor Eco wedi trefnu Diwrnod Di-Drydan ar gyfer **dydd Mercher, Tachwedd 22ain.**

Gobeithiwn y bydd y diwrnod yn codi ymwybyddiaeth pawb o'r pwysigrwydd i ddefnyddio llai o drydan a nwy yn ein bywydau bob dydd.

Gan na fydd trydan a nwy yr ysgol ymlaen am y diwrnod; bydd angen i'r plant lapio'n gynnes iawn gyda digon o haenau o ddillad a dod a het a menyg hefo nhw. Mae croeso iddynt wisgo eu dillad eu hunain os ydynt yn dymuno.

Bydd Anti Alwena yn paratoi bwyd bwffe ar gyfer y diwrnod yn hytrach na bwyd poeth, e.e. brechdanau, pasta, coleslaw, ffrwthau, iogwrt ayyb.

Ein gobaith yw y bydd y Diwrnod Di-Drydan yn ffordd hwyliog ac ymarferol o helpu'r plant i ddeall pa mor bwysig yw defnyddio trydan a nwy yn effeithlon a grymuso'r plant i leihau eu defnydd o ynni yn yr ysgol ac adref.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

Helen Vaughan-Jones

(Pennaeth/*Headteacher*)